COVID-19 Update: 6th April

This evening's update covers the latest on support for businesses, a reminder that waste will be collected on the Good Friday and Easter Monday bank holidays, additional hub schools, and how the Council and the Police joined forces to patrol Cardiff's parks.

Over £35 million of grant aid delivered to local businesses in Cardiff

More than £35m has now been distributed to Cardiff businesses in grant aid by Cardiff Council as part of the on-going COVID-19 rescue package.

Since the £1.4bn financial rescue package was announced the council has processed 2,590 applications in just under a week on behalf of Welsh Government.

Applications are continuing to flood in and the authority is assessing them as quickly as possible to ensure that vital funds can be distributed to eligible businesses that are in need of assistance.

The distribution of this grant aid follows the announcement from Welsh Government that all retail, leisure and hospitality businesses with a rateable value of £500,000 or less will receive 100% non-domestic rates relief for 2020-21.

This will be administered automatically through the Council's Rate Scheme and will apply automatically so eligible businesses do not need to make any representations to the Council.

In addition to the business rate relief which is available, a number of grants are available for businesses which have been directly affected by the crisis.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23590.html

Easter Waste and Recycling Collections

Your collection day will remain the same during Easter this year, but collection times may change so please ensure your waste is out by 6am.

Waste collection services will operate on both Good Friday (10 April) and Easter Monday (13 April).

Our refuse collectors will work across the Easter bank holidays to ensure the collection service continues.

Recycling
We're asking that you continue to separate recyclable materials, just as you normally would, as we recognise that there would be no space in your black bin / red striped bags for these items if you didn't have a recycling bag collection.

Cardiff wants to become the best recycling city in the world, so we want you to continue to use your green recycling bags to keep up good habits for when the crisis is over.

The following items can go in your green recycling bag:
- ✓ Cardboard Easter egg boxes
- ✓ Plastic packaging from Easter egg boxes
- ✓ Foil (please make sure that it is clean and scrunched up in a ball)

If you're unsure if an item can go into your recycling bag, please check our Recycling A-Z:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/A-Z-of-recycling/Pages/default.aspx

Additional hub schools opened this week

Today, an extra four hub schools opened to provide child care for key workers, bringing the total number of schools to 20.

Peter Lea Primary School, Rhydypennau Primary School, and Ysgol y Wern have been opened in order to bring additional capacity to the system. This has allowed pupil numbers to be more evenly distributed across all the hubs, further strengthening the schools' arrangements for social distancing.

The fourth addition hub school to open today is Bryn y Deryn. This is providing extra support for vulnerable young people at Key Stage 4.

Cardiff Council initially implemented the school hub system on Monday, 30th March, in response to the restrictions on movement and social gatherings introduced by UK Government and Welsh Government.

Since then, over 800 children and young people have been registered to receive child care, with around 200 going to a hub school each day, on average.

The hubs are being staffed by a daily team of over 130 volunteer teachers, teaching assistants and other support staff, helping to deliver over 12000 hours of childcare a week.

In addition, over 200 pre-school aged children are being cared for by registered private, voluntary and independent childcare providers across the city.

Click here for more information on school arrangements over Easter:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23566.html

Council and the Police join forces to patrol Cardiff's parks

Our parks team were out on patrol with police colleagues this weekend and we're pleased to report that, despite the sunshine, Cardiff's parks were generally quiet and the majority of people were following social distancing requirements.

We want to keep parks open as long as possible, so that people can enjoy the mental and physical health benefits of exercising in the open air, but we need everyone's help to do that.

Stay home, stay safe, and if you are visiting your local park, please ensure you follow government instructions on social distancing – and remember, that includes when you're using bridges over the city's rivers.

Diweddariad COVID-19: 6 Ebrill

Mae'r diweddariad heno yn cynnwys y diweddaraf ar gefnogaeth i fusnesau, nodyn i atgoffa y bydd gwastraff yn cael ei gasglu ar wyliau banc Gwener y Groglith a Llun y Pasg, ysgolion hyb ychwanegol a sut y bu i'r Cyngor a'r Heddlu gydweithio i gadw llygad ar barciau Caerdydd.

Dros £35 miliwn o gymorth grant wedi ei ddosbarthu i fusnesau lleol yng Nghaerdydd

Mae dros £35 miliwn bellach wedi'i ddosbarthu i fusnesau Caerdydd mewn cymorth grant gan Gyngor Caerdydd fel rhan o'r pecyn achub COVID-19 parhaus.

Ers cyhoeddi'r pecyn achub ariannol gwerth £1.4 biliwn mae'r cyngor wedi prosesu 2,590 o geisiadau o fewn ychydig o dan wythnos ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae ceisiadau'n parhau i lifo i mewn ac mae'r awdurdod yn eu hasesu mor gyflym â phosibl er mwyn sicrhau y gall arian hanfodol gael ei ddosbarthu i fusnesau cymwys y mae angen cymorth arnynt.

Mae dosbarthu'r cymorth grant hwn yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd pob busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol o £500,000 neu lai yn derbyn rhyddhad rhag 100% o'r ardrethi annomestig ar gyfer 2020.

Caiff hwn ei weinyddu'n awtomatig trwy Gynllun Ardrethi'r Cyngor a bydd yn cael ei gymhwyso'n awtomatig felly nid oes angen i fusnesau cymwys wneud unrhyw sylwadau i'r Cyngor.

Yn ogystal â'r rhyddhad rhag ardrethi busnes sydd ar gael, mae nifer o grantiau ar gael i fusnesau y mae'r argyfwng yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Derllanwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23589.html

Casgliadau Gwastraff ac Ailgylchu dros y Pasg

Bydd eich diwrnod casglu yn aros yr un peth yn ystod y Pasg eleni, ond mae'n bosibl y bydd amseroedd casglu yn newid felly sicrhewch fod eich gwastraff allan erbyn 6am.

Bydd gwasanaethau casglu gwastraff yn gweithredu ar Ddydd Gwener y Groglith (10 Ebrill) a Dydd Llun y Pasg (13 Ebrill).
Bydd ein casglwyr sbwriel yn gweithio ar draws gwyliau banc y Pasg i sicrhau bod y gwasanaeth casglu yn parhau.

Ailgylchu
Rydym yn gofyn i chi barhau i wahanu deunyddiau ailgylchadwy, yn union fel y byddech fel arfer, oherwydd rydym yn cydnabod na fyddai unrhyw le yn eich bin du/ bagiau streipiau coch ar gyfer yr eitemau hynny pe na baech yn cael casgliad bagiau ailgylchu.

Mae Caerdydd am fod y ddinas ailgylchu orau yn y byd, felly rydym am i chi barhau i ailgylchu yn eich bagiau gwyrdd ailgylchu, er mwyn cynnal arferion da ar gyfer pan fydd yr argyfwng drosodd.

Gall yr eitemau canlynol fynd yn eich bag ailgylchu gwyrdd:
- ✓ Blychau Cardfwrdd Wyau Pasg
- ✓ Pecynnu plastig o flychau wyau Pasg
- ✓ Ffoil (gwnewch yn siŵr ei fod yn lân ac wedi ei wasgu yn belen.

Os nad ydych chi'n siŵr a ellir ailgylchu eitem, gwiriwch ein A-Y ailgylchu: https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/A-Y-o-ailgylchu/Pages/default.aspx

Ysgolion Hyb ychwanegol ar agor yr wythnos hon

Heddiw, agorwyd pedair ysgol hyb ychwanegol i gynnig gofal plant i weithwyr allweddol, gan ddod y nifer o ysgolion i 16.

Mae Ysgol Gynradd Peter Lea, Ysgol Gynradd Rhydypennau ac ysgol y Wern wedi eu hagor er mwyn sicrhau rhagor o gapasiti i'r system. Mae hyn wedi ei gwneud yn bosib dosbarthu nifer y disgyblion yn fwy cyfartal rhwng yr hybiau i gyd, yn cryfhau ymhellach drefniadau'r ysgolion ar gyfer ymbellhau cymdeithasol.

Y bedwaredd ysgol hyb i agor yn ychwanegol heddiw yw Bryn y Deryn. Mae hon yn cynnig cymorth ychwanegol i bobl ifanc sy'n agored i niwed ym Cyfnod Allweddol 4.

Rhoddodd Cyngor Caerdydd y system hybiau ysgolion ar waith ddydd Llun, 30 Mawrth, mewn ymateb i'r cyfyngiadau ar symud a digwyddiadau cymdeithasol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Ers hynny, mae dros 800 o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru i dderbyn gofal plant, gyda thua 200 yn mynd i ysgol hyb bob dydd, ar gyfartaledd.

Mae'r hybiau'n cael eu staffio gan dîm o 130 o athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth eraill sy'n wirfoddolwyr, yn helpu i gyflwyno 12,000 awr o ofal plant yr wythnos.

Yn ogystal, mae dros 200 o blant cyn oed ysgol yn derbyn gofal gan ddarparwyr gofal plant preifat, gwirfoddol ac annibynnol ledled y ddinas.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am drefniadau ysgol dros y Pasg: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23566.html

Y Cyngor a'r Heddlu yn dod ynghyd i batrolio parciau Caerdydd

Bu tîm y parciau ar batrôl gyda'r heddlu y penwythnos hwn ac, er gwaetha'r heulwen, ry'n ni'n falch o ddweud fod parciau Caerdydd yn dawel ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o bobl yn cydymffurfio â gofynion ymbellhau cymdeithasol.

Rydym am gadw'r parciau ar agor cyhyd ag y bo modd, fel y gall pobl fwynhau'r manteision iechyd meddwl a chorfforol o wneud ymarfer corff yn yr awyr agored, ond mae angen cymorth pawb arnom i wneud hynny.

Arhoswch gartref, arhoswch yn ddiogel, ac os ydych yn ymweld â'ch parc lleol, sicrhewch eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau'r llywodraeth ar ymbellhau cymdeithasol – a chofiwch, mae hynny'n cynnwys pan fyddwch yn defnyddio pontydd dros afonydd y ddinas.